YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

"DOS I'TH YSTAFELL."
NODIADAU'R GOLYGYDD.
CYSGOD A SYLWEDD.
BRAWDOLIAETH A RHYDDID.
Y GENHADES O'R INDIA BELL.
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.

Library of the
PACIFIC UNITARIAN SCHOOL
FOR THE MINISTRY
Berkeley, California

Cyf. XXXVI | Mawrth, 1936 | Rhif 3

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. L. Jones, 38, Monthermer Road, Cathays, Cardiff.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr,—J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

MYNNWCH GOPI O LYFR NEWYDD

SARNICOL

'Blodau Drain Duon'

SYDD YN AWR YN EI AIL ARGRAFFIAD

Pris 1s. (Drwy'r Post, 1s. 2c.)

Anfoner i

SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

Cyhoeddwyd yr Argraffiad Cyntaf ychydig cyn Nadolig.
Y mae'r Ail Argraffiad yn awr yn barod.

CERDDI DIGRI

A RHAI PETHAU ERAILL

Gan IDWAL JONES.

Yn cynnwys iimrigau, braslun o ffarsiau byrion, a'r cerddi ac adroddiadau a ganlyn—*Un Dyn Bach ar ôl, Eistedd ar ben Llidiard, Ie wir! Twt, twt! Swot, Siani, Marged, Leisa, Caru Mari, Profiadau Hyfryd, Profiadau Diflas, Ymadawiad Neli, Diniweidrwydd Dyn, etc.*

Anfonwch at y Cyhoeddwyr:

J. D. LEWIS A'I FEIBION, GWASG GOMER, LLANDYSUL.

Pris 2s., Drwy'r Post, 2s. 3c.

YR YMOFYNNYDD

. . CYLCHGRAWN MISOL . .
CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

Golygydd : Y Parch. T. L. JONES

CYFROL XXXVI. MAWRTH, 1936. RHIF 3

" DOS I'TH YSTAFELL—."

" *Chwi yw goleuni y byd. O bydd dy lygad yn syml dy holl gorff fydd yn oleu.*"—MATH. V. 14 ; VI. 22.

* * *

GWELL yw bod yn gloff na byw am byth ar ein heistedd.—*Dihareb o Rwsia.*

* * *

AR y cyfan mae mwy o bleser nag o boen mewn bywyd, onide ni fyddem mor ddiamynedd pan y daw poen.—LEIGH HUNT.

* * *

EDRYCHWCH ymhell ymlaen, ond nid mor bell fel ag i gwympo dros y cerrig dan eich traed.—GENGHIS KHAN.

* * *

MAE ein amheuon yn fradwyr ac yn peri i ni golli y pethau da y gallem yn aml eu hennill oherwydd i ni ofni ymdrechu.—SHAKESPEARE.

* * *

MAE dynion wedi llwyddo i fod yn ddedwydd drwy sylweddoli nad enillir dedwyddwch drwy sicrhau pleser meddwl neu gorff, ond drwy ddatblygu rheswm a threfnu ymddygiad yn unol ag egwyddorion.—ARNOLD BENNETT.

* * *

MAE dynion o foesoldeb cadarn yn eu syched am wybodaeth ddwyfol yn cael eu tywys i ffynhonnau gwybodaeth o hunan. Hunan wybodaeth fyfyrgar ydyw'r ysgol lle y meithrinir parch a chydymdeimlad a gobaith a gostyngeiddrwydd, oherwydd yno y gwelir ochr yn ochr yr hyn ydym a'r hyn ddylem fod. Yno hefyd y cyfarfyddwn wyneb yn wyneb ag ysbryd y Sancteiddrwydd Hollalluog sydd yn ein codi ato ef ei hun.—MARTINEAU.

* * *

OLEUNI Tragwyddol llewyrcha yn ein calonnau ; Ddaioni Tragwyddol gwared ni rhag drwg ; Allu Tragwyddol nertha ni ; Ddoethineb Tragwyddol chwala ein hanwybodaeth ; Drugaredd Tragwyddol trugarha wrthym. Caniata i ni geisio dy wyneb a'n holl galon, a'n holl feddwl, a'n holl enaid, ac yn dy drugaredd anfeidrol dwg ni o'r diwedd i'th bresenoldeb sanctaidd dy hun.—Amen. ALCUIN 735—804.

Nodiadau'r Golygydd.

HELYNTION BYD AC EGLWYS.

TUA mis yn ôl bum yn siarad a dyn ddygwyd gan angladd i wasanaeth crefyddol am y tro cyntaf ers dyddiau hir. Gŵyr pob darllenydd yn ddiamau am lawer cyffelyb i'r dyn hwn. Nid oedd gwahaniaeth mawr hyd y gwn i rhyngddo ag eraill o'r un duedd. Yr wyf yn sôn am dano am imi gael cyfle i ofyn iddo roddi rheswm dros y diffyg ffydd oedd ynddo. Dygwyd ef i fyny, meddai ef, ar aelwyd grefyddol a bu am flynyddoedd yn mynychu addoliad yn gyson wedi iddo dyfu i oedran gŵr. Ond o'r diwedd daeth i'r penderfyniad nad oedd dim yn y peth. "There was nothing in it,"—dyna ei eiriau. Dywedodd ymhellach ei fod yn "mwynhau" y rhan ddefosiynol o'r gwasanaeth ond ei fod yn methu goddef y pregethu,—gormod o bregethu "diwinyddol". O gael ganddo i esbonio beth feddyliai wrth bregethu diwinyddol, darganfyddais mai pregethu "ysgrythurol" oedd yn ei dram-gwyddo yn fwy na phregethu diwinyddol,—y math o bregethu sydd yn hollti adnod i fyny yn dameidiau bach, ac yn rhannu pob tamaid yn ddau neu dri phwynt, ac yn gorffen heb ddweud fawr os dim sydd yn dal unrhyw berthynas a phroblemau unigolion a chymdeithas yn yr oes hon. Dyma gnewyllyn cwyn fy nghyfaill. Dywedais wrtho yn onest fod mwy o bregethu ymarferol, mwy o ymdrech i wynebu problemau yr oes yng ngoleuni egwyddorion Cristionogaeth yn ein pulpudau nag a dybiai ef. Nid wyf yn meddwl i mi ei argyhoeddi.

Ni fuaswn yn sôn am hyn onibai i mi deimlo wrth siarad a'r dyn hwn mai nid esgus ysgafn am y tro oedd yn gynnyg i mi, ond ei fod yn teimlo mewn gwirionedd fod yna rywbeth yn eisiau yn y pulpud heddyw, ac y buasai yn well ganddo pe y gallai barhau i fynychu addoliad a theimlo fod "rhywbeth ynddo". Yr oedd yn ddyn a chanddo wybodaeth weddol helaeth o gwrs y byd a digwyddiadau a phroblemau'r dydd.

Ychydig ddiwrnodau ar ôl hyn daeth i'm llaw lythyr anfonwyd i ysgrifennydd un o'n heglwysi gan ddyn ieuanc meddylgar. Llythyr ydoedd yn mynegu fod yr ysgrifennydd yn teimlo fod yn rhaid iddo roddi i fynu ei aelodaeth yn yr eglwys. Teimlai nad oedd ei aelodaeth yn golygu dim iddo, ac y gallai ddefnyddio ei egnion i well pwrpas mewn gwasanaeth cymdeithasol. Ni fedrai gredu y gallai yr un neges grefyddol wneyd yr un apêl mewn byd lle y mae dynion yn newynu ynghanol digonedd. Mae crefydd yr eglwysi yn ddiangenrhaid heddiw. "Organized religion is unnecessary." Dyna fyrdwn cri y dyn ieuanc hwn.

Ffolineb wrth gwrs fyddai i mi neu unrhyw un arall gymeryd golwg rhy ddifrifol ar gyflwr yr eglwysi ar sail cwynion dau ddyn. Ni fuaswn yn sôn am y cwynion hyn onibai i mi ganfod rhywbeth sydd yn fy nychrynu ac yn fy ngofidio yn fwy na chwynion unigolion.

Mae yn beth ffasiynol iawn, yn y pulpudau efallai yn enwedig, i ymosod ar y bobl ieuainc, a dweyd nad oes ganddynt ddiddordeb mewn unpeth ond pleser ac oferedd. Mae'n debyg mai dyma y ffasiwn ymhob oes.

Ond nid yw'n wir heddiw fodd bynnag, fod y bobl ieuainc i gyd a'u bryd ar bleser. Mae yna nifer dda ohonynt a'u diddordeb ym mhroblemau difrifol ein hoes, ond y peth rhyfedd yw, fod cynifer ohonynt yn hollol argyhoeddedig mai gwastraffu eu hegnion fyddent yn yr eglwysi. Maent i'w darganfod mewn amryw fudiadau eraill a'u brwdfrydedd yn rywbeth i ryfeddu ato,—ym Mhlaid Llafur, ym mudiad Social Credit, yn Undeb Cynghrair y Cenhedloedd, gyda'r Fascists hyd yn oed, ond nid yn yr eglwysi.

Unwaith eto, nid wyf am ddadleu y medrir coll-farnu crefydd yr eglwysi ar sail diffyg brwdfrydedd nad ydyw ond dros amser efallai. Ni ellir gosod ar eglwysi yr oes hon yn fwy nag ar eglwysi unrhyw oes yr oll o'r cyfrifoldeb am fethu dadrys y problemau cymdeithasol a rhwng-genedlaethol, ond fe awgrymir i mi un peth y tâl i ni feddwl yn ddwys am dano. Er i'r eglwysi godi nifer o bobl sydd yn cymeryd rhan flaenllaw mewn gwleidyddiaeth a chymdeithaseg, ni ellir lai na theimlo fod yr eglwysi ar y cyfan yn sefyll o'r tu allan rywsut i rym y dadleu a'r ymdrechu cymdeithasol. Pe y gellid dweyd eu bod yn sefyll allan o fwriad eglur, ac am resymau clir a chydwybodol ni fyddai cymaint o le i amau. Ond nid ydym yn methu gwneyd ein rhan am i ni benderfynu dweyd fel Nehemeia gynt, " Gwaith mawr ydwyf fi yn wneuthur, am hynny ni allaf ddyfod i waered ". Yr ydym yn sefyll o'r tu allan am i ni fod mor brysur gyda " chadw pethau i fynd ",—mor brysur gyda cheisio diogelu bodolaeth ein eglwys neu ein capel fel sefydliad, mor brysur gyda chael dau ben y llinyn ynghyd. Faint o'n heglwysi sydd yn gwario eu holl egnion bron, ac egnion eu gweinidogion ar " drefnu " pethau sydd yn debyg o gadw yr achos rhag bod mewn dyled ar ben blwyddyn? Wrth gwrs nid dadleu yr ydwyf nad yw'r pethau hyn o bwys o gwbl, ond temtir fi er hynny i awgrymu ein bod ambell i dro yn gweled pethau o chwith. Credwn y byddai o angenrheidrwydd lewyrch ar bopeth ond i'r adroddiad ariannol ddangos gweddill, a symudwn nefoedd a daear, a benthycwn ambell scêm o gyffiniau uffern i drefnu y *bydd* gweddill yn y cyllid. Anaml y ceir neb i awgrymu yr edrychai y cyllid ar ei ôl ei hun pe y *llewyrchai* yr eglwys yng ngwir ystyr y gair. Dadleued pwy a fynno nad ydym i gymeryd yn llythrennol y geiriau " Ceisiwch yn gyntaf deyrnas nefoedd a'r holl bethau hyn a roddir i chwi yn ychwaneg ". Dadleuaf i o argyhoeddiad cynhyddol yr aiff problem cyllid a phroblem *bod-*

olaeth eglwys ac enwad yn amhosibl cyn bo hir os na allwn argyhoeddi y bobl fod ein diddordeb mewn rhywbeth mwy a helaethach na bodolaeth yr eglwys fel sefydliad,—cadw y drws yn agored i nifer fach o hen bobl ar y mwyaf i fynychu addoliad unwaith neu ddwy yn yr wythnos.

Gwn yn ddigon da nad oes dim yn newydd yn hyn oll, ac nid dadleu yr ydwyf am i'n pulpudau gael eiu tro yn lwyfannau politicaidd. Am ddweyd yr wyf fod problemau cymdeithasol, yn enwedig problem heddwch yn pwyso yn drymach heddyw nag erioed ar feddyliau a chalonnau dynion. Maent yn pwyso mor drwm nes y medrwn faddeu i'r dyn sydd yn teimlo fod y pregethwr sydd yn mynd i'w bulpud dydd Sul i ddatgymalu adnod neu fanylu ar ryw bwnc diwinyddol cul, a'r swyddog eglwys na all feddwl am eglwys lewyrchus ond mewn termau cyllidol yn byw mewn rhyw fyd nad ydyw yn cyfrif o gwbl—byd *unreal*.

Mae'n debyg y buasai llawer yn barod i amau a ydyw problemau difrifol y byd yn pwyso mor drwm ar feddyliau y mwyafrif ag yr awgrymir yma. Bu llythrennau brasaf ein papurau dyddiol yn ysgrechain am wythnos am y " rhyfel " rhwng Cynghrair y Bêl Droed a'r bobl sydd yn gwneyd miliynnau o'r betio helaeth sydd yn cynhyddu bob dydd mewn perthynas a'r chware. Yn sicr ni chafwyd erioed well tystiolaeth i ddiffyg egwyddor perchenogion papurau newyddion na'u cefnogaeth ddi-gywilydd o fobl y betio yn y rhyfel hwn. Nid rhyfedd i'r cyhuddiad gael ei wneyd ambell waith mai y bobl sydd yn gwario'r arian ar yr hysbysebau sydd yn rheoli barn golygydd y papur. Ond " adding insult to injury " ydyw hawlio y cymerir ochr y betwyr yn enw rhyddid—rhyddid yr unigolyn i wneyd fel y mynno a'i eiddo ei hun !

Ond gan nad beth am hyn, ynghanol y twrw hyn, cai dyn a'i glustiau yn agored ei argyhoeddi na fu i'r dyn cyffredin anghofio pethau mwy difrifol. Mae'r ffaith fod tynged gwareiddiad yn y glorian yn y dyddiau hyn wedi suddo hyd yn oed i ymwybyddiaeth y dyn dreulia bob prynhawn Sadwrn ar faes y bêl droed, ac yn y llyfrgell gyhoeddus ceir dynion o bob math yn ymdyrru i ddarllen tudalennau sobr y cylchgronnau wythnosol. Ac ar y tudalennau hyn fe'n gorfodir i sylweddoli mor ddifrifol ydyw'r argyfwng. Dyma eiriau un o'n hysgrifenwyr craffaf, ers tua bythefnos yn ol,— " Dyma'r ffaith sylfaenol am ddynoliaeth heddyw—yr ydym mewn gwasgfa—gwasgfa waethaf y byd ". (" We are in a jam, the world's worst jam.") Awgryma hyn nad oes obaith am y foment am ymryddhad o'r trybini. Ac o fethu ohonom gael agoriad yn rhywle, ni ellir disgwyl ond ffrwydriad.

Fel yr awgrymwyd, mae'r ymwybyddiaeth o ddifrifoldeb yr argyfwng yn gwasgu yn drwm ar feddyliau y bobl,—ond maent hwythau yn gweled o chwith os y credant nad oes gan grefydd ddim o bwys i ddweyd yn yr argyfwng. Dywedodd un hanesydd

enwog mai achos cwymp pob gwareiddiad fu i'r bobl golli eu nerf. Ni ellir colli nerf o fod mewn cyffyrddiad a ffynhonnell dragwyddol gras y Duw byw. Ond cwestiwn arall ydyw a lwyddodd yr eglwysi eu hunain gadw mewn cyffyrddiad bywydol a'r ffynhonnell yma. Dywedai rhai yr awgryma eu cyflwr i'r gwrthwyneb. Er na fyddai i'r grwgnachwyr fynegu eu hunain yn y ffordd yma, rhyw ymwybyddiaeth niwlog o'r methiant yma sydd o'r tu ôl i'w cwynion hwy. Os ydynt yn cyfeiliorni, ar yr eglwysi y syrth y cyfrifoldeb o brofi eu bod ar gyfeiliorn. Y prawf a ofynnir heddyw ydyw y disgwylir arnom i arwain a chymell a chynghori dynion yn eu hymchwil am ryddhad o'r perygl sydd yn bygwth ein gwareiddiad. Ac ni wnaiff yr un arweiniad na'r un cyngor y tro oni nodweddir y sawl a'u rhoddant gan ffyddlondeb amlwg i'r egwyddorion uchaf, a pharch diffuant i'r gwirionedd.

Hunangofiant y Robin Goch.

I'R PLANT.

Ar fore teg ym Mehefin, tra y gwenai'r haul yn gynnes ar fryn a dôl, daeth rhyw anesmwythder drosof a wnaeth i mi deimlo nas gallwn fyw'n hwy tu fewn i blisgyn yr ŵy, gan fod fy nghorff yn tyfu, ac am fy mod wedi bwyta'r bwyd oedd ar fy nghyfer ynddo. Felly, gwthiais fy mhig fechan drwy'r plisgyn, nes ei dorri, a chefais fy hun yn rhydd i fwynhau goleuni'r haul, ac awyr iach y fro am y tro cyntaf. Cefais fy hun mewn gwely bach twt, crwn o ran ffurf, wedi ei adeiladu o fwswgl, ac wedi ei daenu a phlu esmwyth.

Safai'r gwely mewn twll cudd yng nghlawdd y ffordd fawr ger " Tro Tanygaer ", ychydig y tuallan i bentref tlws y Cribyn. Uwch fy mhen yr oedd nenlen o redyn a dail tafol a llysiau ereill yn cymhlethu, gan sicrhau i mi berffaith guddfa. Erbyn i mi edrych o'm hamgylch, gwelais fod gennyf dri brawd bychan yn y nyth, tua'r un oedran a minnau. Digon dilun oeddem oll, heb fedru symud fawr, ac heb fawr blu i guddio ein noethni. Gwelais hefyd fod gennyf dad a mam i ofalu am danaf. Safent yn ymyl y nyth am ysbaid, yna hedent i fyny i'r goeden, gan edrych a gwylio, rhag ofn bod rhyw elyn gerllaw. Yna deuent yn ôl at y nyth drachefn.

Cyn hir teimlwn rhyw wacter yn fy nghrombil, a dechreuais agor fy mhig a llefain am fwyd, fel y gwna babanod bob amser. Gwelodd fy mam yr arwyddion ar unwaith, ac nid hir y bu cyn dod ag abwydyn blasus i mi i'w fwyta. Erbyn i mi gael fy niwallu,

dyna'r tri arall yn llefain am fwyd, wedi iddynt hwythau gael eu diwallu bu heddwch yn y nyth am ysbaid, ond druain o'm rhieni, ychydig seibiant gawsent, oherwydd yr oeddem yn bedwar baban cryf ac iach, a galwem am fwyd yn lled aml. O ganlyniad, teimlwn fy nghorff yn tyfu, a'm hadenydd yn cryfhau, a'm coesau'n unioni, a chyflym dyfai'r plu dros fy nghorff; a chofiwch blant bach, ond i chwi fwyta'r bwyd rydd eich mam i chwi heb rwgnach na phwdi, fe dyfwch chwithau yn blant cryf ac iach.

Cyn hir teimlwn chwant chwarae arnaf, a dechreuais hercian ar hyd y nyth, yna unodd fy mrodyr yn y castiau, a chawsom lawer ysbaid ddifyr.

Un diwrnod pan oeddem yn chwarae'n hapus, sylwais fod fy mam yn ymwylltio'n enbyd, ac yn hedfan yn gyffrous oddiamgylch y nyth, yna i ffwrdd â hi i'r goeden uwchben. Yn y man dyna rhyw gawr o fachgen yn sefyll o flaen y nyth, estynnodd ei law fawr i fewn, cydiodd ynof a thynnodd fi allan, gan fy ngosod ar gledr ei law, ac edrych yn fyfyrgar arnaf am amser hir. Curai fy nghalon yn wyllt, a chrynai fy nghorff bach fel deilen yr aethnen, oherwydd ofnwn ei fod yn bwriadu fy lladd, ond o'r diwedd gosododd fi'n ôl yn ofalus yn y nyth a cherddodd ymaith. Hwyrach mai cywreinrwydd a barodd iddo fy nhynny allan o'r nyth, am nad oedd wedi gweld aderyn mor ieuanc o'r blaen.

Nis gwn sut y gwelodd y nyth, os nad sylwi ar fy mam yn hedfan allan mor gyffrous a wnaeth. Rwy'n siwr y buasech chwithau blant yr ysgol yn crynu hefyd pe deuai rhyw ddieithryn heibio, a'ch tynnu allan o'r gwely, a'ch cario allan drwy'r drws.

Ymhen rhyw dair wythnos, yr oedd y nyth bron yn rhy fach i mi a'm tri brawd, a dywedodd greddf wrthym ei bod yn bryd i ni wahanu. Daeth nwyd anturiaethus i'm gwaed, a theimlem chwant treio ein hadenydd. Teimlem hefyd fod ein rhieni wedi aberthu digon drosom, a'i bod yn bryd i ni ddechreu ymladd ein brwydrau ein hunain. Ceisiais hedfan o'r nyth i'r goeden, ond syrthiais i'r gwrych y tro cyntaf. Ceisiais eilwaith, ond heb fawr o lwyddiant; yn union fel y bydd plentyn bach yn dechreu cerdded, ond cyn hir medrwn hedfan lle y mynnwn, yna gadewais y nyth am byth, gan fentro allan i'r byd, i lwyddo, neu i fethu.

Nid ydyw'r Robin Goch yn aderyn uchelgeisiol iawn wrth naturiaeth, gwell ganddo fyw yn ardal ei febyd nag anturio i wledydd tramor fel y gwna'r gôg a'r wennol, a llu o adar ereill, ond byddaf fi'n canu fy nghân syml yn gynharach yn y flwyddyn na'r un aderyn arall, a byddaf yn canu ar ôl bydd yr adar ereill wedi gadael y wlad hefyd.

Ar ôl mentro allan o'r nyth, bu fy myd yn wyn am dro, oblegid yr haf oedd hi, yr oedd yr hin yn braf, ac yr oedd digon o bryfed ac ymlusgiaid i'w cael heb fawr o drafferth, heb sôn am yr hadau o wahanol fathau oedd i'w cael ar berth a gwrych. Teimlwn yn

lled hapus, ac erbyn hyn yr oeddwn yn ymwybodol fod rhyw ffliwt fach yn fy ngwddf, a mawr oedd fy llawenydd pan gynhyrchais gainc swynol o'r ffliwt am y tro cyntaf, a oedd yn ôl fy marn i, yn deilwng o draddodiad fy nheulu. Yr oedd fy llawenydd mor fawr, fel y dymunwn i bawb fy nghlywed yn canu, felly ehedais i fyny i ben Gaer Maesmynach, a chenais fy ngoreu glas, fel y gallasai pobl pentref y Cribyn fy nghlywed ar un llaw, a phobl pentref Sant Silin ar y llaw arall. Tua chanol yr haf aeth y tywydd yn boeth ofnadwy, nes sychodd pob diferyn o ddwfr yn y ffosydd ac yng nghleisiau'r cloddiau, ond diolch i Bistyll Shams, ac Afon Fach Rhydybannau, ac Afon y Grannell, ni fu iddynt hwy sychu, a chefais i a'r pentrefwyr ein disychedu er gwaethaf y sychter.

Aeth yr haf heibio, a daeth y gaeaf yn gynnar. Prinhaodd y bwyd, ac fe aeth bywyd yn galetach. Rhaid oedd nesu at yr aneddau yn awr, er mwyn chwilio am friwsion.

Un bore oer, tra y gorchuddiai'r eira y meysydd llwm, safwn ar gangau gerllaw un o fythynnod y pentref. Yr oeddwn bron a rhynny, ac heb damaid o frecwast. Cyn hir penderfynais hedfan at y bwthyn, gan obeithio na chadwai'r teulu gath o gwbl. Disgynnais yn grynedig ar garreg y ffenestr, gan edrych i mewn yn athrist iawn. Gwelais ford gron wedi ei thynnu yn dyn at y tân, a hen wraig unig yn bwyta ei brecwast yn hamddenol arni. Sylwodd yr hen wraig arnaf, ac yr oedd rhyw garedigrwydd yn llanw ei llygaid pŵl. Cyn hir, agorodd y drws gan alw " Robin, Robin ". Yna taflodd binsiaid o friwsion i mi. Darfu i ysgogiad ei llaw fy nychrynu'n fawr, ac ehedais yn ôl i'r goeden, ond nid cyn gweld y briwsion. Aeth yr hen wraig yn ôl i'r tŷ, a chauodd y drws. Ehedais innau'n ôl at y briwsion, a chan edrych o un ochr i'r llall, rhag ofn y byddai rhyw elyn yn dyfod ar fy ngwarthaf, bwyteais frecwast helaeth a blasus, heb gael fy aflonyddu gan gi na chath, yna ehedais yn ôl i'r llwyn drachefn. Ymhen ychydig amser daeth yr haul allan i dymheru tipyn ar yr oerfel. Teimlwn innau'n fwy calonnog, a cheisiais ganu cân i'r hen wraig fel tâl am fy mrecwast. Bu'n garedig iawn i mi drwy'r gaeaf, a chyfrifwn hi fel ffrind mewn angen.

Mae'r Gwanwyn wedi dod eto. Mae gennyf finnau nyth fach ddel yn awr, a phump o gywion bach ynddi yn ymddibynnol arnaf fi a'i mam am eu cynhaliaeth. Ni saif y nyth ymhell o'r fan lle cefais fy magu, oblegid ni fyn y Robin fynd ymhell o olwg y mwg. Ffarwel Robin.

A. Rees.

Cysgod a Sylwedd.

[*Dyfyniad o Lyfr VII. Gweriniaeth Plato ; y cyfieithiad Cymraeg wedi ei seilio ar Saesneg Thomas Taylor. Ar lawer ystyr Gweriniaeth Plato yw'r llyfr mwyaf yn y byd, o ran mater, arddull, a gwreiddioldeb.*—S.]

Yn awr, ar ôl y pethau hyn a ddywedwyd gennym, ebe fi, mewn perthynas â dysg ac annysg, cymharwn ein cyflwr naturiol â rhyw gyflwr tebyg i'r canlynol. Dychmygwch ddynion yn byw mewn ogof dan-ddaearol, â'i mynedfa'n agored i'r goleuni, ac yn ymestyn dros holl hyd yr ogof. Dychmygwch eu bod wedi byw yn yr ogof hon o'u mebyd, â chadwyni am eu traed a'u gyddfau ; a'u bod yn gorfod aros yma, heb fedru ond edrych o'u blaen, gan na fedrant droi eu pennau'n ôl o herwydd y cadwyni.

Meddyliwch ymhellach, fod golau tân yn goleuo ymhell uwchben o'r tucefn iddynt ; a bod ffordd wedi ei chodi rhwng y tân a'r dynion mewn cadwyni. Ar hyd y ffordd hon, ar un ochr iddi, meddyliwch fod wal isel wedi ei gwneud, fel y clawdd y bydd ffyliaid pen ffair yn dangos eu triciau rhyfedd o'r tucefn iddo. Yr wyf yn gweled y darlun, ebe'r cyfaill.

Yn awr dychmygwch ddynion ar y wal hon yn dal pob math o bethau uwchlaw'r wal, megis cerfluniau dynion, ac anifeiliaid, a llestri a dodrefn o amrywiol fathau, mewn coed neu faen. Ac yn ôl pob tebyg, o'r dynion a fydd yn dal y pethau hyn i fyny, ac yn eu cludo yn ôl a blaen, bydd rhai yn siarad, ac eraill yn ddistaw.

Yr ydych, ebe'r cyfaill, yn defnyddio cymhariaeth ryfedd, a charcharorion hynod iawn.

Ond, ebe fi, y maent yn debyg i ni ein hunain, wedi'r cwbl. Oblegid, a ellwch chwi dybio, yn y lle cyntaf, y medr y bobl hyn weled dim ohonynt eu hunain, nag o eraill, ond yn unig y cysgodion a deflir gan y tân, yn disgyn ar y rhan o'r ogof y sydd gyferbyn â hwynt ? Pa fodd y medrant, ebe'r cyfaill, a hwythau heb allu troi eu pennau trwy eu holl fywyd, yn herwydd eu cadwyni ? Pa beth a welant o'r pethau sydd yn symud heibio ? Onid yw'n hollol yr un fath ? Os, ynteu, y medrent siarad â'i gilydd, oni thybiwch y byddent yn ei hystyried yn addas i roddi enwau ar y pethau a welent o'u blaen. O angenrheidrwydd hwy a wnaent hynny. A beth pe bai atsain, neu eco, yn y rhan o'r ogof gyferbyn â hwy ; oni thybiwch y cyfrifent, bob tro y bai'r dynion ar y wal yn siarad, mai'r cysgodion ar ochr yr ogof oedd yn llefaru ? Tebyg iawn, ebe'r cyfaill.

Bydd y cyfryw ddynion yntau, ebe fi, yn barnu'n gyfangwbl nad oes dim yn wir onid cysgodion pethau. O angenrheidrwydd, ebe'r cyfaill. Mewn perthynas â'u rhyddhad o'r cadwyni hyn

ynteu, a'u gwellhad o'u hanwybodaeth, meddyliwch am eu natur pe digwyddai rhywbeth fel hyn. Pan ryddheid un ohonynt, a gorfod arno'n sydyn i sefyll i fyny, a throi ei ben, a cherdded ac edrych i gyfeiriad y goleuni ; wrth wneud hyn, dioddefai boen, a byddai, oherwydd yr ysblander, yn anabl i syllu ar y pethau na welsai o'r blaen onid eu cysgodion ; beth, dybiwch chwi, a ddwedai, pe mynegai rhywun iddo nad oedd o'r blaen wedi gweled namyn drychiolaethau ; ond yn awr, gan ei fod yn nes at bethau gwirioneddol, ei fod yn canfod yn gywir y pethau gwir a sylweddol, yn union fel y maent ?

A thybiwch y dangosid iddo, megis drwy bwyntio â bys, bob gwrthrych fel yr elai heibio, a gofyn iddo, a cheisio ganddo ateb, pa beth ydoedd ; oni syniwch y byddai'n amau ei lygaid ei hun, ac yn tybio fod y pethau a ganfyddai gynt yn fwy sylweddol o lawer, na'r hyn a ddangosir iddo'n awr ? O lawer iawn, ebe'r cyfaill. A phe gorfyddid iddo edrych ar y goleuni ei hunan, oni ddolurid ei lygaid, ac oni throisai ei olygon ymaith ; a chan droi'n ôl at y pethau y medr eu canfod, oni thybiai eu bod yn gliriach ac yn amlycach na'r pethau a ddangoswyd iddo ? Yn hollol felly, ebe'r cyfaill. Ond, ebe fi, pe bai rhywun yn ei dynnu drwy drais i fyny dros y tir garw a serth, heb oedi dim nes ei ddwyn i lygad agored goleuni'r haul, oni byddai'r dyn yn llawn llid am ei boenydio felly ? Ac wedi cyrraedd y goleuni, a llenwi o'i lygaid gan ysblander, ni byddai'n abl i weled dim o'r pethau hynny a elwir yn awr yn sylweddol. Na byddai, ar y cyntaf, ebe'r cyfaill. . . . Os y bydd i chwi gymharu 'r fangre a welir gan y llygad i drigfod mewn carchar ; a golau'r tân ynddi, i oleuni'r haul, a'r ffordd serth i fyny oddiyno, a gweledigaeth y pethau uchod i esgyniad yr enaid i fyd deall a doethineb, chwi a welwch ystyr y gymhariaeth.

SARNICOL.

Brawdoliaeth a Rhyddid.

"TILL the war-drum throbb'd no longer, and the battle-flags were furl'd
In the Parliament of Man, the federation of the world."

Felly proffwydai'r bardd Tennyson ar sail ei gred ddiysgog fod cynnydd y ddynoliaeth yn fater anhepgorol. Onid erthygl bwysig yn ein credo ninnau ydyw brawdoliaeth dyn led-led y byd ? Mynnwn fyw'n y gobaith taw

"Segurdod yw clod y cledd,
A rhwd yw ei anrhydedd."

Ein dymuniad ydyw gweld y ddynoliaeth yn ymryddhau oddiwrth y cystadlu hwnnw sy'n gormesu cymydog, gwreiddyn pob drwg-dybiaeth a rhyfela. Mynnwn weld cenhedloedd y ddaear yn cyd-gysylltu a'i gilydd mewn brawdoliaeth, ac yn edrych tu hwnt i'w hunan-les gan sylweddoli fod ganddynt ddyledswyddau tuag at ei gilydd. Onid tystiolaeth i'r dyhead hwn ydyw'r ffaith fod gennym heddiw Seiat y Gwledydd yn cyfarfod yn Genefa ?

Nid digwmwl ydyw'r orwel bresennol. Nid ydyw popeth yn dda. Fe ŵyr pobun a ddarllen bapur newyddion am ddadeni'n y blynyddoedd diwethaf hyn o'r *theory* sy'n darostwng yr unigolyn i waseidd-dra hollol i'r Wladwriaeth. Y mae'n wir fod y *theory* mor hen a threfniant cymdeithas. Pan edrychwn yn ôl dros lwybr hanes fe welwn iddi godi ei phen ar lawer tro, ond cyn gynted ag y ceisiodd ymsefydlu ei hun mynnodd cydwybod y ddynoliaeth amau ei hawl.

Ysgrifennai'r Proff. J. B. Bury ar " Gynnydd Dyn ", a'r flwyddyn cyn y Rhyfel ysgrifennodd fod strygl rheswm yn erbyn awdurdod wedi gorffen ym muddugoliaeth bendant ac arhosol rhyddid. Edrychir bellach, meddai, ar ryddid barn a llafar fel egwyddor sylfeinol yng ngwledydd mwyaf gwareiddiedig y byd.

Ond mewn ffordd na chyhoeddwyd o'r blaen yn hanes fe gyhoeddir heddiw'r *theory* hon o waseidd-dra'r unigolyn i'r Wladwriaeth. Bwrier cipdrem dros gyfandir Ewrop heddiw, ac fe glywir gwledydd fel yr Eidal a'r Almaen a Rwsia'n crechwenu rhyddid yr unigolyn. Er fod Comiwnistiaeth a Ffasciaeth yn gwahaniaethu'n *ddirfawr* mewn *theory* cytunant yn hyn—cyhoeddant oruchafiaeth hollol y Wladwriaeth. Creu " ufudd-dod dall " i'r Wladwriaeth yw eu hamcan. A beth ydyw'r Wladwriaeth ? Mewn *theory*, y boblogaeth yn gyfan ydyw, ond mewn ymarferiad, llywodraeth *grwp* o ddynion, y *dictators*. Pan gofiwn am y miloedd sydd heddiw mewn *concentration camps* yn yr Almaen, am y miloedd ereill a ddihangodd i dir alltud oherwydd traethu eu barn ar bethau fel y maent, y mae'n amlwg ar unwaith nad yw Hitler yn cyn-rychioli ond rhan o boblogaeth y wlad.

Heddiw'n hyglyw y mae'r ffilosoffi boliticaidd sy'n cyhoeddi dinistr gweriniaeth, yn lladd hefyd ar y gred ym mrawdoliaeth dyn. Canys dyna ydyw Ffasciaeth,—ond edrych ei disgyblion arni fel yr unig *grefydd* sy'n allu iechydol i'r byd heddiw. Ysgrifennai un ohonynt (Giorgio Melhis) :—

> " For Fascism the fatherland is identified with God. . . . The things of the spirit, whether art or science, religion or morals, are subordinate to this idea, and have an existence, a value, an importance only in strict relation to this conception of country —their one sole scope and mission is that of serving the fatherland and celebrating its greatness . . . "

Amlyga'r paragraff ar unwaith fod Ffasciaeth yn gwadu bod unrhyw awdurdod yn uwch na'r Wladwriaeth. Canlyniad naturiol cred fel hon ydyw gwadu gallu teyrnas a theyrnas i gyd-weithredu. Y mae Ffasciaeth a Rhyng-genedlaetholdeb yn dermau croes.

Yn ei draethawd—The Political and Social Doctrine of Fascism —dywed Mussolini, " Fascism . . . represents the immortal spirit of the nation ". Wrth esbonio'r syniad o " ysbryd didranc cenedl " amlyga nad ewyllys trigolion y Genedl mohono ond rhyw " fod cyfrin ", ei gorffennol, ei phresennol a'i dyfodol. Wrth gwrs, llais yr " ysbryd " hwn ydyw Duce !

O ddarllen llenyddiaeth Ffasciaeth dyma'r casgliad a dynnir, mai mympwyon a dymuniadau'r Genedl sy'n ben ar bopeth. Dyma safon moesoldeb ei thrigolion ! Taniwyd hefyd ddelfryd Ffasciaeth a'r " awydd am goncwest ".

> " Fascism," meddai Mussolini, " . . . believes neither in the possibility nor the utility of a permanent peace . . . War alone brings up to its highest tension all human energy and puts the stamp of nobility upon the peoples who have the courage to meet it. . . . a doctrine which is founded on this harmful postulate of peace is hostile to Fascism."

Sieryd y paragraff mewn iaith ddealladwy ar fynyddoedd Abysinia,—ac y mae'r dewis yn glir i ninnau—Ffasciaeth ynte brawdoliaeth, Ffasciaeth ynte rhyddid.

Gwers hanes y ddynoliaeth yw fod pob syniad newydd sy'n pleidio cynnydd yn tarddu ym meddwl yr unigolyn, a menter anodd a pheryglus yn fynych y bu cyhoeddi'r syniadau hyn. Os ydyw'r Wladwriaeth trwy ei hawdurdod hollol yn mynnu gosod llyfetheiriau ar feddwl, a chorff ac enaid ei thrigolion, yn sicr o ddilyn y mae tranc y Wladwriaeth honno. Ym mhob cymdeithas rhaid fod lle i'r anghydffurfiwr os ydyw'r gymdeithas honno'n dewis cynnal ei hiechyd.

Gellionnen. J.D.J.

Y Genhades o'r India bell.

Peth amser yn ôl clywais fod cenhades o'r India bell yn pregethu yn un o gapeli'r dref y Sul canlynol. Penderfynais fynd i'w chlywed, ac ni fu'n edifar gennyf am hynny. Mae'n debyg fod brodorion yr India yn naturiol grefyddol. Y mae delw eu Duw ganddynt yn eu tai, ac ni chydiant mewn un gorchwyl heb fynd ar eu gliniau o flaen y ddelw i ofyn am nerth i'w gyflawni yn iawn. (" Beth am danom ni bobl y Gorllewin ?—Dim amser.")

Gan nad beth a ddigwydd mewn teulu, bydded afiechyd, bydded farwolaeth, ymfoddlonant, am y credant mae ewyllys Duw ydyw'r cyfan.

Mewn pentref bychan ynghanol y wlad mae'r genhades dan sylw yn efengylu. Dywedai mai gwaith hawdd ydyw pregethu'r Efengyl i'r Hindu am ei fod mor grefyddol. Mae yn y pentref bychan un Eglwys Gristionogol, ac y mae ynddi nifer weddol o aelodau. Nid rhyw adeilad gwych, gyda ffenestri lliwiedig, a muriau addurniedig mo'r eglwys hon, ond caban isel, dinôd, heb na phulpud na seddau o'i fewn. Pridd yw ei lawr, a charreg fawr, lwyd, arw yw ei bulpud. Bydd yr addolwyr yn eistedd ar y llawr pridd, a'r pregethwr yn traddodi ei bregeth ar bwys y garreg lwyd. Bydd un o'r brodorion yn pregethu ambell Sul, ac os bydd ganddo rywbeth sylweddol i'w ddweyd, bydd y gwrandawyr yn glustiau i gyd, a gwaeddant " Amen " yn awr ac yn y man, ond os bydd y bregeth dipyn yn sych, byddant oll yn hepian cyn hir. Tystia hyn fod y natur ddynol yn lled debyg yn y Dwyrain ag ydyw yn y Gorllewin. Canant yr un tonau ag a ganwn ni yng Nghymru, a meddant ar leisiau da. Bydd hyn yn codi hiraeth am gartref ynghalon y cenhadwr weithiau. Nid pregethu'r Efengyl ydyw unig waith y cenhadwr, ond gwasanaetha hefyd fel ysgolfeistr, ac fel cynghorwr, ac fel arolygwr yr Ysbyty, a phob peth arall cysylltiedig a bywyd uchaf y brodorion. Prin iawn ydyw'r ysbytai yno, ac nid oes un meddyg croen-wyn yn yr un ohonynt. Cred y cenhadon fod hyn yn flotyn ar y wlad hon. Mae'r Hindu yn awyddus am addysg, ac yn dyheu am gael gafael ar y gwir Dduw. Hoffai gael rhagor o genhadon ac athrawon o'r Gorllewin, ond nid yw am gael ei hyfforddi yn nulliau " modern " y Gorllewin fel y gwel hwy yn y trefi mawrion, fel Calcutta a Madras a'r cyffelyb. Mae'r dull yn rhy faterol i'w chwaeth ddefosiynol ef. Eto gelwir hwy yn " untouchables ".

Mae'r cardotyn yn fwy beiddgar yn yr India nag yn y wlad hon. Weithiau daw at y drws tua wyth o'r gloch yn y bore, ac os dywed gwraig y tŷ wrtho am fynd i ffwrdd gan nad oes ganddi ddim i'w roddi iddo, fe saif wrth y drws trwy'r dydd, yn y gobaith y newidia'r wraig ei meddwl.

Pa wraig yng Nghymru allasai oddef crwydryn wrth y drws o godiad haul i'w fachlud ? Ofnaf y byddwn i yn nerfau i gyd. Mae'r Bus yn rhedeg drwy bentrefi India yn awr fel ag yn y wlad hon.

Wel, o feddwl am y sefyllfa yn ddifrifol, cyfyd y cwestiwn,— Beth am wareiddiad a datblygiad ?

Pa un ai gwell ydyw dyn dysgedig o anian faterol, neu ddyn annysgedig o anian dduwiol ? Mae Cristionogaeth yn ateb y cwestiwn hwn i ni. Ni fu neb ar y ddaear erioed yn fwy datblygedig na'r Arglwydd Iesu. Yr hunan yma sydd yn y natur

ddynol sydd wrth wraidd y drwg. Mae rhyw awydd a thrachwant am gyfoeth a safle wedi meddiannu'r byd heddiw, onid dyma beth sydd yn gyfrifol am gyflwr presennol Ewrob.

Yr arwyddair ydyw " Trecha treisied " neu yn ôl yr hen ddywediad glywais yn y wlad pan yn blentyn " Y cwbwl i fi a'r rhest i Shoni 'mrawd ". Mae'r ysfa am gyfoeth yn gymaint yn y Gorllewin nes y mae bywyd wedi myned yn rhyw ruthr diorffwys.

Mae'n bryd i ni ymbwyllo a gofyn i ni ein hunain,—" I ble yr ydym yn myned ? " Yna, mae'n bosibl y gwawria'r dydd pan y cymerwn amser i ofyn am nerth oddi fry i'n cyfarwyddo i gyflawni ein dyletswyddau yn gydwybodol, fel y gwna'r Indiad anllythrennog.

A. Rees.

Marwgofion.

Ionawr 20, bu farw DELME STEPHEN JONES, annwyl faban Timothy a Rachel Winnie Jones, Gwarffynnon, plwyf Llanwenog. Gweinyddwyd yn y tŷ gan y Parch. D. Evans, ac yn yr Eglwys gan y ficer, y Parch. B. Davies.

Ionor 31, bu farw DAVID DAVIES, Undergrove, ger Llanbedr, yn 80 oed. Amser byr y bu'n gystuddiol—rhyw dair wythnos. Tybid ei fod ar y ffordd i wellhâd ; eithr daeth y diwedd y dydd uchod yn ddirybudd ac annisgwyliadwy. Gadawodd mewn galar dwys o'i golli briod, un brawd, ynghyd a nifer o berthynasau agos eraill ; a chydymdeimlir yn fawr â hwynt—yn enwedig â'r weddw yn ei hunigedd. Cyn iddo ymsefydlu ar ôl ei rieni yn Undergrove, bu'n gweithio mewn amryw leoedd ym Morgannwg : a diau y cofir am dano gan ei gydweithwyr y sydd eto'n fyw. Ymaelododd yng Nghapelygroes tua deng mlynedd ar hugain yn ôl ; ac o hynny hyd ei farw bu'n rhyfeddol o ffyddlon. Teimlai ddiddordeb mawr yn yr achos ; yr oedd ei lwyddiant yn agos iawn i'w galon ; ac fe harddodd ei broffes â'i fywyd diniwed a'i rodiad cywir. Bu'n briod tyner, yn gymydog parod ei gymwynas, ac enillodd air da y sawl a'i hadwaenai. Y dydd Mercher dilynol, hebryngwyd ei weddillion i gladdfa'i deulu yng Nghapelygroes ; i'r capel daeth nifer luosog ynghyd fel arwydd o'u parch iddo. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A. ; yn y capel gan y Parch. D. Evans : ar lan y bedd gan y Parch. S. Evans Bowen.

Chwefror 8, bu farw GEORGE HENRY MACDONALD WAKE, 62, Grandison Road, Battersea, Llunden, yn 52 oed. Tua deufis yn ôl collodd ei briod. Bryd hynny, ymddangosai ef yn gryf o gyfansoddiad ac o iechyd, heb un arwydd bod ei ddiwedd mor agos. Ni bu ei gystudd yn hir—tuag wythnos. Gweiniwyd arno'n dyner gan ei nith, Miss Bessie Jones, Araul, Llanwnnen. Arferai dalu ymweliad bob haf â phentref Cribyn, a gwnaeth iddo'i hun nifer o gyfeillion a'i parchai'n fawr. Dygpwyd ei weddillion i Gribyn i orwedd ym meddrod ei briod y Mercher dilynol. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A. a'r Parch. D. Evans.

Nodion yr Eglwysi.

TREBANOS.—Fe gynhelir Cymanfa Ganu yng Nghapel y Graig ar ddydd Llun y Pasc, Ebrill 13. Defnyddir Rhaglen Cymanfa Ceredigion.

CAPELYGROES.—Nos Lun, Chwefror 24, bu'r Parch. L. G. Lewis, gweinidog y Bedyddwyr yn Nhrefdraeth, Penfro, yn darlithio ar " Un o gymeriadau Daniel Owen ". Ni raid i Mr. Lewis wrth ganmoliaeth nac fel pregethwr nac fel darlithydd. Digon yw dywedyd iddo roddi bodlonrwydd mawr i'r gynulleidfa luosog a wrandawai arno. Llywyddwyd gan Mrs. Jones, Y Bryn, Llanybyther ; a chafwyd ganddi hithau anerchiad a swynodd y gwrandawyr. Yr elw tuag at atgyweirio'r Capel ; a chafwyd swm boddhaol iawn.

AT EGLWYSI CEREDIGION.—Bwriada Mr. George G. Armstrong, Llywydd y General Assembly, dalu ymweliad â'r Sir, Sul y Pasc, Ebrill 12. Mae i bregethu mewn dau wasanaeth ar y Sul hwnnw : ym Mhantdefaid am 2 o'r gloch fel ag i roddi cyfle i aelodau'r Graig, Pantdefaid, Llwynrhydowen a Chapelyfadfa i'w weld a'i glywed, ac yng Nghapelygroes am 6 o'r gloch er i aelodau Eglwysi y rhanbarth uchaf gael cyfle tebyg. Mae Mr. Armstrong yn un o'n lleygwyr mwyaf llafurus a ffyddlon ac hyderir y manteisir ar y cyfle yma i ddangos ein parch iddo ef a'r Gymdeithasfa y mae'n gynrychioli.—E. O. Jenkins.

TRECYNON.—Gosodwyd tabled goffa brês, hardd iawn, ar y mur yn yr Hen Dŷ Cwrdd, Trecynon, dydd Mawrth, Ionawr 21ain, 1936. Dyma'r arysgrifen :—

Er Serchus Gof
am
Y Parch. Rees Jenkin Jones, M.A.
1835—1924

a'i wraig
Ann Griffith
1852—1899

Gosodir y Dabled hon gan eu plant.

Hefyd am ei frawd
David James Jones,
1837—1922.

Yn amrywio mewn doniau ac anian ond yn un mewn gwasanaeth ; yn ymhyfrydu mewn rhadlondeb ac yn gweini mynych gymwynasau dirgel mewn cariad a hynawsedd.

* * *

Mae'r Dabled yn edrych yn hardd iawn ar y mur gyferbyn â'r sedd a arferent eistedd ynddi. Diolchir i'r plant yn gynnes iawn gan yr eglwys.—E. R. Dennis.

ABERYSTWYTH.—Cynhaliwyd cwrdd blynyddol Heol Newydd ar ôl gwasanaeth yr hwyr dydd Sul yr 16eg o Chwefror. Cymrwyd y gadair gan Mr. W. S. Jones. Ar ôl darllen cofnodion y cwrdd blynyddol diweddaf rhoddodd yr ysgrifennydd ei adroddiad am y flwyddyn 1935. Yn hwn cyfeiriodd ymhlith pethau eraill at y ffaith ein bod ar golli ein gweinidog, y Parch. J. Marles Thomas, M.A., sydd wedi gwneud gwaith mor dda yma ac sydd trwy ei alluoedd disglaer a'i gymeriad gloew wedi ennill serch ac edmygedd pob aelod o'r gynulleidfa. Dymunwn bawb iddo bob llwyddiant a phob hapusrwydd eto yn y dyfodol. Dangosai adroddiad y trysorydd fod yna swm sylweddol mewn llaw ar ddiwedd y flwyddyn. Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith ac ail-etholwyd hwy.

Mae dyn na fedr ymffrostio ond yn ei gyndeidiau hyglod fel taten : mae popeth da sydd yn perthyn iddo dan y ddaear.—Syr Thomas Onerbury.

* * *

Nid yw'r byd ond drych a rydd i bob dyn adlewyrchiad o'i wyneb ei hun. Os gwgu wnewch arno, edrycha yntau yn sur arnoch chwi ; chwerddwch wrtho, a bydd yntau yn gydymaith difyr a charedig.—Thackeray.

* * *

I edrych ar fywyd heb ofn ; i dderbyn deddfau natur, nid mewn ymostyngiad llariaidd ond fel ei meibion wnant fentro i chwilio ac holi ; i feddiannu ein heneidiau mewn heddwch ac ymdriniaeth ; dyma y pethau a berthynnant i'n dedwyddwch.—Maeterlink.

* * *

Ymddengys i mi mai y llwyddiant uchaf sydd yn bosibl i ddyn ydyw byw fel ag i sylweddoli ei hun,—ei holl bosibiliadau. Dyna'r dasg a osodir ar bob un o honom, ac mae y mwyafrif o honom yn ei bwnglera.—Ibsen.

* * *

Distawrwydd ydyw'r elfen yn yr hon y mae pethau mawr yn ymglymu a'i gilydd i ddyfod allan yn ôl llaw mewn ffurf berffeithiedig a mawreddog i olau dydd, y bywyd y maent bellach i lywodraethu.—Carlyle.

* * *

O edrych o amgylch ar wagedd stwrllyd y byd ; geiriau heb fawr ystyr ; gweithredoedd heb fawr werth ; yr ydym yn caru myfyrio ar Ymerhodraeth fawr y Distawrwydd, yn uwch na'r sêr i gyd, dyfnach na Theyrnas Marwolaeth. Hi yn unig sydd fawr, bychan ydyw popeth arall.—Carlyle.

* * *

Pe gofynnid i ddyn ddeffinio nodweddion boneddwr yn ystyr eangaf y gair, mae'n debyg yr atebai : " Yr ewyllys i roddi ei hun dros eraill,—ofn i wthio eraill i unrhyw sefyllfa na hoffai fod ynddi ei hun : y gallu i wneyd yr hyn a ymddengys iddo ef sydd yn iawn heb ofalu beth y bydd i eraill wneyd na meddwl."—John Galsworthy.

* * *

Mae'r offeiriaid yn edrych tuag yn ôl, ac nid tuag ym mlaen. Meddyliant fod dynion y gorffennol yn well ac yn ddoethach na neb sydd yn byw heddyw. Mae yr offeiriad felly yn gwrthod ymddiried yn y byw ac yn mynnu i ni gael ein llywodraethu gan y meirw. Felly safaf i fynu yn erbyn yr Eglwys, a mynnaf yr hawl i bob dyn i weithio allan ei fywyd ei hun, gan ganiatau i eraill weithio allan eu bywydau hwy yn eu ffordd eu hunain.—Garibaldi.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

Llywydd—

THOMAS THOMAS, Ysw., SPRING GARDENS, LLANDYSUL.

— CYNHELIR —

Cyfarfodydd y Pasg

Y GYMDEITHAS UCHOD YNG

NGHAPEL CILIAU AERON

— AR —

Hwyr Mercher a Dydd Iau, Ebrill 15 a 16, 1936

Trefn y Cyfarfodydd—

NOS FERCHER am 6.30 o'r gloch pregethir gan y PARCHN. E. R. DENNIS a J. MARLES THOMAS, M.A.

BORE IAU am 10.30 o'r gloch, PWYLLGOR Y GYMDEITHAS.

PRYNHAWN IAU am 2 o'r gloch pregethir gan y PARCHN. E. O. JENKINS a J. D. JONES, B.A., B.D.

HWYR IAU am 6 o'r gloch pregethir gan y PARCHN. T. O. WILLIAMS, M.A. a T. L. JONES.

Bydd GEORGE G. ARMSTRONG, Ysw., Llywydd y General Assembly, yn y Cyfarfodydd, a disgwylir ef i roddi anerchiad yng Nghyfarfod prynhawn Iau.

J. D. Lewis a'i Feibion, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha)
Edited by MORTIMER ROWE, B.A. assisted by Principal H. MC LACHLAN, and DR. DOROTHY TARRANT. 1,033 pages cr. 8vo. **7/6** net (by post **8/-**). Leather bound, gilt edges, **10/6** (by post **11/-**). A book for every lover of great things in literature and life.

CHRISTIANITY AS A NEW RELIGION
By PERCY DEARMER, M.A., D.D., Canon of Westminster. Price **1/-** (by post **1/1**). (The 1935 Essex Hall Lecture). Many formal lectures still in print. Send for list.

THE ESSENTIALS OF CHRISTIANITY
By HERBERT J. ROSSINGTON, M.A., B.D. Price **1/-** (by post **1/1**). Cloth, **2/-** (by post **2/2**).

DOCTRINES THAT DIVIDE THE CHURCHES
By C. M. WRIGHT, M.A. Price **6d.** (by post **7d**).

CHRISTIAN EXPERIENCE
By G. RANDALL JONES, M.A., B.SC., B.D. This is No. 21 in the series:
RELIGION: ITS MODERN NEEDS AND PROBLEMS
Edited by RAYMOND V. HOLT, M.A., B.LITT. Twenty-one books of different titles and authors are now issued. **1/-** each (by post **1/1**).

Send for 24 page Prospectus with synopsis of the individual books.

The Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

OS YDYCH AM RODDI ANRHEG AM FFYDDLONDEB I'R YSGOL SUL A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

"PERLAU MOLIANT"

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.

Cecil Jones,

F.B.O.A.,
F.S.M.C.,
F.I.O.

:: QUALIFIED OPHTHALMIC OPTICIAN ::

31, Great Darkgate Street
ABERYSTWYTH

TELEPHONE No. 209.